**Cyflwynwyd yr ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar Gwasanaethau endosgopi**

**This response was submitted to the Health and Social Care Committee consultation on Endoscopy Services**

**EN 04**

**Ymateb gan: | Response from: Iechyd Cyhoeddus Cymru | Public Health Wales**

---

**Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd**
**Ymchwiliad i Wasanaethau Endosgopi**

**Ymateb Ysgrifenedig Iechyd Cyhoeddus Cymru**

**Rhagfyr 2022**

## 1 Diben

Diben y cyflwyniad hwn yw ymateb i'r cwestiynau ychwanegol a godwyd gan Bwyllgor Senedd Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd mewn perthynas â'r ymchwiliad i wasanaethau endosgopi.

Mae'r cyflwyniad hwn yn canolbwyntio ar y meysydd allweddol canlynol sy'n ymwneud â darparu rhaglen Sgrinio Coluddion Cymru a'r gwasanaeth prawf imiwnocemegol ar ysgarthion (FIT) symptomatig gan gynnwys:

- Effaith pandemig COVID-19 ar raglen Sgrinio Coluddion Cymru a darparu gweithdrefnau colonosgopi sgrinio
- Amseroedd aros ar gyfer colonosgopi sgrinio a mesurau a gymerwyd i reoli'r sefyllfa hon
- Cynnydd yn erbyn y cynllun i optimeiddio'r rhaglen sgrinio coluddion yng Nghymru a sut y mae'r sefyllfa'n cymharu â rhaglenni sgrinio coluddion eraill yn y DU
- Mynediad gofal sylfaenol at FIT symptomatig a sut y mae hyn yn cael ei ddefnyddio i flaenoriaethu cleifion ar gyfer endosgopi.

Nod Sgrinio Coluddion Cymru yw lleihau nifer y bobl sy'n marw o ganser y coluddyn yng Nghymru drwy nodi canser yn gynnar pan fydd triniaeth yn fwy tebygol o fod yn llwyddiannus a thrwy gael gwared ar dyfiannau cyn-ganseraidd. O fis Hydref 2022, gwahoddir pobl rhwng 55 a 74 oed i gymryd rhan bob dwy flynedd. Anfonir gwahoddiad a phecyn prawf FIT i gyfeiriad cartref pobl gymwys er mwyn iddynt ei gwblhau a'i anfon i'r labordy sgrinio ar gyfer ei ddadansoddi i nodi a oes symiau bach o waed yn y sampl ysgarthion, yn fwy penodol, elfen globin haemoglobin dynol.

Mae'r rhai y nodir bod ganddynt waed yn eu hysgarthion yn cael cynnig ymchwiliadau pellach mewn endosgopi (colonosgopi sgrinio). Mae'r rhai sy'n cael eu hatgyfeirio i gael colonosgopi sgrinio â chynnyrch patholeg uchel a chanfyddir polyp mewn dros 70% ohonynt a chanfyddir canser y coluddyn mewn 10% ohonynt. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod disgwyl i 90% o bobl sy'n cael diagnosis o ganser y coluddyn drwy sgrinio wella. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn comisiynu gwasanaethau colonosgopi a diagnostig (radioleg a phatholeg) gan y saith bwrdd iechyd yng Nghymru.

## 2 Yr effaith y mae COVID-19 wedi'i chael ar ddarparu gwasanaethau endosgopi a gweithredu'r cynllun gweithredu endosgopi cenedlaethol, a goblygiadau hyn ar gyfer canlyniadau cleifion a chyfraddau goroesi.

### 2.1 Oedi'r Rhaglen Sgrinio Coluddion

Ym mis Mawrth 2020, roedd yn amlwg bod y llwybrau atgyfeirio ar gyfer cyfranogwyr a oedd yn cael prawf sgrinio positif yr oedd angen rhagor o ymchwiliadau arnynt mewn endosgopi yn cael eu heffeithio'n gynyddol gan effeithiau pandemig y Coronafeirws. Roedd y sefyllfa'n cael ei hadolygu'n rheolaidd ar yr adeg honno ac ar 17 Mawrth 2020, yn dilyn asesiadau risg a thrafodaethau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, argymhellodd Iechyd Cyhoeddus Cymru oedi dros dro ar gyfer y rhaglenni sgrinio oedolion. Ystyriodd yr argymhelliad gyhoeddiad Llywodraeth Cymru ynghylch cynlluniau i ohirio apwyntiadau cleifion allanol nad oeddent yn rhai brys a derbyniadau a thriniaethau llawfeddygol nad oeddent yn rhai brys er mwyn ailgyfeirio staff ac adnoddau i gefnogi'r pandemig, a chanllawiau Llywodraeth y DU i atal cyswllt cymdeithasol a theithio nad oeddent yn hanfodol. Cadarnhaodd swyddogion Llywodraeth Cymru eu bod yn derbyn yr argymhelliad a chyhoeddwyd datganiad i'r wasg rhagweithiol ar 20 Mawrth 2020 a oedd yn cynnwys dyfyniad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Arweiniodd hyn at Sgrinio Coluddion Cymru yn oedi gwahoddiadau sgrinio o 20 Mawrth 2020 ac erbyn 30 Mawrth 2020, roedd yr holl weithdrefnau colonosgopi sgrinio wedi dod i ben ledled Cymru mewn ymateb i argymhellion a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Gastroenteroleg Prydain a nododd y dylai pob triniaeth endosgopi, ac eithrio'r rhai brys, ddod i ben ar unwaith. Daeth gweithdrefnau Colonagraffeg Tomograffeg Gyfrifiadurol (CT) mewn radioleg i ben hefyd ar yr adeg hon.

Yn ystod y cyfnod hwn o oedi, cyflwynodd Sgrinio Coluddion Cymru lwybr dros dro i liniaru risgiau'n cynnwys y defnydd o CT ar gyfer yr abdomen a'r pelfis ar gyfer cyfranogwyr a gafodd prawf sgrinio positif a nodwyd gyda symptomau sy'n gysylltiedig â chanser y coluddyn, er mwyn tynnu sylw atynt ar gyfer ymyriad llawfeddygol posibl (gweithredodd y llwybr hwn rhwng 24 Ebrill a 31 Gorffennaf 2020).

Wrth i achosion o COVID-19 ddechrau lleihau o fis Mai 2020, gweithredwyd cynlluniau i adfer llwybrau sgrinio diogel o ran COVID-19, a dechreuodd y gweithredu seiliedig ar risg a fesul cam o ran y rhaglenni a oedwyd o fis Mehefin 2020 gyda gwahoddiadau Sgrinio Coluddyn yn ailddechrau ar 1 Gorffennaf 2020.

O ganlyniad, cafodd y rhaglen sgrinio coluddion yng Nghymru ei hoedi am 19 wythnos o ddiwedd mis Mawrth tan fis Gorffennaf 2020, ac yn ystod y cyfnod hwn roedd tua 110,000 o gyfranogwyr sgrinio yn hwyr o ran cael eu gwahoddiad sgrinio

## 2.2 Ailddechrau ac Adfer y Rhaglen Sgrinio Coluddion

Ar 1 Gorffennaf 2020, ailddechreuodd Sgrinio Coluddion Cymru'r rhaglen sgrinio mewn modd fesul cam, seiliedig ar risg. Roedd y cam cyntaf yn cynnwys ailgyhoeddi pecynnau sgrinio i tua 3,000 o gyfranogwyr yr oedd eu pecyn prawf wedi'i wrthod ar gyfer ei brofi yn ystod oedi'r rhaglen, gydag adfer dilynol gwahoddiadau sgrinio wythnosol i'r boblogaeth gymwys o 7 Awst 2020. O fis Tachwedd 2020, sicrhaodd Sgrinio Coluddion Cymru fod cyfranogwyr yr oedd disgwyl iddynt gael eu pecyn sgrinio cyntaf yn cael eu blaenoriaethu a heb oedi eu cynnig sgrinio, o ystyried bod y cyfranogwyr hyn yn wynebu risg uwch na'r rhai a oedd wedi cael eu sgrinio'n flaenorol gan y Rhaglen.

Rhoddodd Sgrinio Coluddion Cymru gynllun ar waith i adfer y rhaglen sgrinio yn dilyn oedi yn ystod y pandemig, drwy gynyddu swm y gwahoddiadau sgrinio wythnosol i alluogi lleihau'r 110,000 o unigolion yr oedd eu pecyn prawf sgrinio yn hwyr. Roedd y swm ychwanegol o wahoddiadau sgrinio yn amrywio rhwng 20-30% mewn ymateb i effaith y pandemig parhaus ar wasanaethau gofal eilaidd a dychwelodd dros dro i symiau gwaelodlin o 6,000 o wahoddiadau wythnosol yn ystod ail don COVID-19 ym mis Ionawr a mis Chwefror 2021. Ailddechreuodd y broses hon o or-wahodd ym mis Mawrth a pharhaodd drwy gydol 2021, gyda'r adferiad o ran yr ôl-groniad sgrinio coluddion yn cael ei gwblhau ar 24 Medi 2021.

Roedd cyflwyno'r FIT sgrinio yn 2019 wedi cynyddu canran y rhai a gafodd eu sgrinio 10% (55% gyda phrawf gwaed cudd yn yr ysgarthion guaiac i 65% gyda FIT). Roedd canran y rhai a gafodd eu sgrinio yn syth ar ôl ailddechrau'r rhaglen ym mis Awst a mis Medi 2020 yn uchel ar 69% a 68%, yn y drefn honno ac mae'r cynnydd hwn wedi'i gynnal ac mae'n 67% ar hyn o bryd (mis Hydref 2022).

Mae'r rhaglen sgrinio coluddion wedi cynnal amrywiaeth o fentrau gyda'r nod o leihau anghydraddoldebau a chynyddu canran y rhai sy'n cael eu sgrinio. Mae'r rhain yn cynnwys ymyriadau wedi'u targedu gyda'r nod o gynyddu canran y rhai sy'n cael eu sgrinio ymhlith unigolion nad oeddent wedi dychwelyd eu pecyn prawf sgrinio (y rhai nad ydynt yn ymateb) gyda'r defnydd o lythyr atgoffa wedi'i gymeradwyo gan feddyg teulu o feddygfa'r unigolyn a sgwrs ffôn ddilynol i'r rhai nad oeddent yn ymateb i'r llythyr. Yn yr ymyriad diweddaraf o'r math hwn a gynhaliwyd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar ddiwedd 2021, roedd yr ymyriadau hyn wedi cynyddu canran y rhai a gafodd eu sgrinio 13% yn y grŵp hwn o bobl nad oeddent wedi ymateb a oedd wedi'i dargedu. Mae Sgrinio Coluddion Cymru hefyd wedi addasu geiriad llenyddiaeth ei raglen a'i wefan i'w gwneud yn fwy hygyrch i gyfranogwyr, wedi cyfieithu taflenni i sawl iaith ac wrthi ar hyn o bryd yn gweithio gydag Anabledd Dysgu Cymru i wneud addasiadau er mwyn sicrhau bod sgrinio coluddion yn fwy hygyrch i gyfranogwyr ag anableddau dysgu.

Fel y nodwyd yn yr adroddiad, annhegwch diweddar, y bwlch annhegwch, sef y gwahaniaeth rhwng canran y rhai sy'n cael eu sgrinio yn y cymunedau lleiaf difreintiedig o gymharu â'r cymunedau mwyaf difreintiedig, oedd 14.5% ar gyfer Sgrinio Coluddion yn 2020/2021 a oedd yn welliant o 2% o gymharu â 2019/2020.

## 2.3 Effaith ar Golonosgopi Sgrinio

Daeth y gwasanaethau colposgopi sgrinio i ben ledled Cymru o 30 Mawrth 2020 ac ailddechrau mewn dull cyfnodol rhwng mis Mehefin a mis Awst 2020. O ganlyniad, cynhaliwyd 32% yn llai o golonosgopïau sgrinio yn 2020 o gymharu â 2019 (2077 yn 2020 o gymharu â chyfanswm o 3056 o golonosgopïau sgrinio a gynhaliwyd yn 2019).

Er bod Sgrinio Coluddion Cymru wedi rhoi'r gorau i atgyfeirio cyfranogwyr ar gyfer endosgopi yn ystod oedi'r rhaglen, roedd ôl-groniad o gyfranogwyr sgrinio a oedd yn aros am golonosgopi wedi datblygu o ganlyniad i wasanaethau endosgopi yn peidio â gweithredu o fis Mawrth 2020. Roedd y cynllun i adfer y rhaglen sgrinio drwy wahodd pobl ychwanegol bob wythnos wedi arwain at atgyfeiriadau ychwanegol i golonosgopi, gydag amseroedd aros ar gyfer colonosgopi sgrinio mor hir â 28 wythnos mewn rhai canolfannau yn ystod 2020 a 2021.

Roedd Sgrinio Coluddion Cymru wedi modelu'r galw am golonosgopi yn seiliedig ar faint o gyfranogwyr ychwanegol a oedd yn cael eu sgrinio bob wythnos i adfer y rhaglen. Dangosodd hyn fod pob cynnydd o 10% yn y gwahoddiadau sgrinio wythnosol, wedi cynyddu nifer yr atgyfeiriadau colonosgopi sgrinio wythnosol gan chwech ledled Cymru gyfan. O ganlyniad, roedd nifer y colonosgopïau sgrinio a gynhaliwyd yn 2021 (3809 o weithdrefnau) wedi cynyddu 25% o gymharu â'r swm cyn y pandemig yn 2019 (3056 o golonosgopïau sgrinio).

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn comisiynu gwasanaethau colonosgopi sgrinio gan y saith bwrdd iechyd yng Nghymru. Cyfarfu cynrychiolwyr o Sgrinio Coluddion Cymru yn rheolaidd (ac maent yn parhau i gyfarfod) gyda thimau endosgopi'r byrddau iechyd i rannu'r data ynghylch y galw am golonosgopi sgrinio a gynhyrchir gan adferiad y rhaglen ac i drafod opsiynau i gynyddu capasiti colonosgopi sgrinio. Cafodd data ynghylch y galw am golonosgopi sgrinio hefyd eu rhannu ag is-grŵp 'Galw a Chapasiti' y Rhaglen Endosgopi Genedlaethol. Yn ogystal, cafodd cyfranogwyr sgrinio a oedd yn dangos symptomau 'baner goch' eu cyflymu ar gyfer cael colonosgopi sgrinio neu eu hatgyfeirio i'r meddyg teulu os nad oedd modd cyflymu'r sgrinio.

# 3 Materion yn ymwneud ag adfer a gwella perfformiad amser aros gan gynnwys: lleihau amseroedd aros ar gyfer profion diagnostig a delweddu i wyth wythnos erbyn gwanwyn 2024 a chymorth i bobl sy'n aros am brofion ac apwyntiadau dilynol; maint y rhestr aros weithredol ar gyfer yr holl gleifion mewnol ac achosion dydd sy'n aros am weithdrefnau endosgopig (yn ôl dull); i ba raddau y mae capasiti dewisol yn cael ei effeithio gan weithgarwch brys ac a oes digon o ddata i ddeall effaith achosion brys; p'un a yw cleifion risg uchel y mae angen gweithdrefnau endosgopig gwyliadwriaeth parhaus arnynt yn cael eu cynnwys yn y modelau cynllunio galw a chapasiti presennol; y cwmpas ar gyfer ehangu'r gwersi a ddysgwyd o fentrau rhestrau aros blaenorol fel mewnoli, allanoli neu unedau symudol a

**beth mae'r modelu galw a chapasiti presennol yn ei ddweud wrthym ynghylch pryd y gellir cyflawni sefyllfa gynaliadwy yn realistig.**

***Amseroedd Aros ar gyfer Colonosgopi Sgrinio a Mesurau a Gymerwyd i Helpu i Reoli'r Sefyllfa hon***

## 3.1 Elfennau Amser Aros Colonosgopi Sgrinio Coluddion

Mae'r amser dychwelyd canlyniadau ar gyfer cyfranogwr sy'n anfon prawf sgrinio i'r labordy i'w brofi yn gyson yn cyrraedd y safon saith diwrnod ar 100%, ac fel arfer mae'r canlyniad yn cael ei anfon o fewn 48 i'w dderbyn. Mae'r cyfranogwyr hynny sy'n cael canlyniad sgrinio negatif yn cael eu dychwelyd i ailalw rheolaidd a'u gwahodd eto ymhen dwy flynedd os ydynt yn dal o fewn yr ystod oedran cymwys. Gofynnir i'r cyfranogwyr hynny sy'n cael canlyniad sgrinio positif gysylltu â'r rhaglen i drefnu apwyntiad gydag Ymarferydd Sgrinio Arbenigol (SSP).

Mae cyfanswm yr amser y mae'n rhaid i gyfranogwyr sy'n cael prawf sgrinio positif aros am golonosgopi sgrinio yn cynnwys dwy elfen, yr amser a gymerir ar gyfer asesiad cyn-golonosgopi gydag SSP a'r amser dilynol i gael y weithdrefn colonosgopi sgrinio. Gyda'i gilydd, mae'r elfennau hyn o aros yn ffurfio cyfanswm yr amser y mae cyfranogwr sy'n cael prawf sgrinio positif yn aros am golonosgopi sgrinio. Gall colonosgopi sgrinio ddigwydd dim ond pan fydd y cyn-asesiad i bennu ffitrwydd meddygol i fwrw ymlaen wedi'i gynnal, felly bydd unrhyw arosiadau hir am gyn-asesiad yn effeithio'n andwyol ar yr amser aros colonosgopi.

## 3.2 Amser Aros ar gyfer Asesiad Cyn-Colonosgopi gydag SSP

Mae'r holl gyfranogwyr sy'n cael prawf sgrinio positif yn cael asesiad gydag SSP i esbonio'r weithdrefn colonosgopi, gwerthuso ffitrwydd ar gyfer colonosgopi a thrafod unrhyw newidiadau i drefn feddyginiaeth cyn y colonosgopi sgrinio. Ar ôl ei gwblhau, mae'r rhai yr ystyrir eu bod yn addas yn cael cynnig yr apwyntiad colonosgopi sgrinio nesaf sydd ar gael yn eu hysbyty lleol neu'n cael eu hatgyfeirio i gael archwiliad radiolegol (CTC) os ystyrir eu bod yn anaddas. Mae mwyafrif yr asesiadau'n cael eu cynnal dros y ffôn, gydag angen achlysurol am asesiad wyneb yn wyneb fel y penderfynir gan angen meddygol neu rwystrau cyfathrebu.

Mae'r amseroedd aros ar gyfer asesiad SSP wedi bod yn hir ar adegau ers ailddechrau'r rhaglen ym mis Gorffennaf 2020 ac roeddent yn amrywio o 5-12 wythnos ym mis Hydref 2021. Achoswyd hyn gan brinder staff mewn rhai unedau (absenoldebau yn gysylltiedig â COVID-19 ac absenoldebau nad oeddent yn gysylltiedig â COVID-19), y cynnydd yn nifer y cyfranogwyr y mae angen asesiad arnynt yn dilyn adfer y rhaglen a cholli staff nyrsio i'r ymateb COVID-19 lleol mewn rhai unedau.

Mewn ymateb, cynhaliodd Sgrinio Coluddion Cymru arfarniad o opsiynau i werthuso mesurau y gellid eu gweithredu i leihau amseroedd aros ar gyfer asesiad cyn cael colonosgopi, gyda'r mentrau canlynol yn cael eu gweithredu:

- Roedd tîm nyrsio canolog Sgrinio Coluddion Cymru wedi cynorthwyo'r SSP yn y cyn-asesiad, y canlyniad a mynychu'r gweithdrefnau colonosgopi mewn ymateb i brinder staff acíwt.
- Roedd staff gweinyddu canolog Sgrinio Coluddion Cymru wedi cynorthwyo'r staff gweinyddol yn yr ysbytai yn ystod prinder staff (lle roedd yn ddaearyddol ymarferol).
- Newid yn y broses i alluogi SSP i gynnal cyn-asesiadau o'r cartref (yn amodol ar ofynion Llywodraethu Gwybodaeth llym). Roedd y newid hwn wedi galluogi'r SSP hynny a oedd yn hunanynysu, ond yn ddigon iach i weithio, i barhau i ddarparu'r gwasanaeth cyn-asesu.
- Cafodd proses beilot cyn-asesu lai ei chyflwyno a ddefnyddiodd daflenni gwybodaeth cyfranogiad manylach a holiadur cyn-asesu. Arweiniodd hyn at ostyngiad o 25% yn yr amser a gymerwyd i gwblhau asesiad dros y ffôn ac mae wedi'i weithredu ar draws pob un o'r 13 o ganolfannau sgrinio.
- Cyllid dros dro i gynyddu cymorth gweinyddu sgrinio yn yr unedau endosgopi sgrinio lleol i sicrhau bod SSP yn cael eu rhyddhau o dasgau gweinyddu, a thrwy hynny gynyddu capasiti'r nyrsys sgrinio hyn.
- Cael gwared ar archwiliadau rheoli o'r SSP, gyda'r rhain bellach yn cael eu cynnal gan dîm nyrsio canolog Sgrinio Coluddion Cymru. Mae hyn yn dileu baich gweinyddu pellach o'r SSP i alluogi amser iddynt gynnal asesiadau ychwanegol a mynychu mwy o weithdrefnau colonosgopi sgrinio.
- Galluogi byrddau iechyd i ddefnyddio SSP wedi'u mewnoli i fynychu rhestrau colonosgopi sgrinio (yn amodol ar wiriadau sicrhau ansawdd boddhaol), a thrwy hynny alluogi rhestrau sgrinio ar benwythnosau pan nad oedd SSP Sgrinio Coluddion Cymru ar gael.
- Recriwtio SSP a staff gweinyddol ychwanegol o fis Ebrill 2021 i gynorthwyo'r gwaith a gynlluniwyd i optimeiddio'r rhaglen (gyda chyllid pellach yn cael ei ryddhau o fis Ebrill 2023)

O ganlyniad, mae'r amseroedd aros ar gyfer asesiad SSP wedi adfer ers hynny ym mhob un o'r 13 o ganolfannau asesu sgrinio lleol ac maent i gyd bellach yn cael eu cynnal o fewn safon 14 diwrnod Sgrinio Coluddion Cymru (yr ystod amser aros ar gyfer asesiad SSP ar draws yr 13 o ganolfannau asesu lleol oedd 5 i 12 diwrnod ar 11 Tachwedd 2022).

### 3.3 Amser Aros ar gyfer Colonosgopi Sgrinio

Yn syth ar ôl yr oedi oherwydd y pandemig yn 2020 a thrwy 2021, roedd cyfranogwyr a gafodd brawf sgrinio positif yn aros cyhyd â 28 wythnos mewn rhai byrddau iechyd am eu gweithdrefn colonosgopi sgrinio gyntaf. Roedd cyfanswm yr amser aros ym mis Ebrill 2021 yn amrywio o 4-28 wythnos (yn aros am 14 wythnos

ar gyfartaledd) a rhwng 7-28 wythnos ym mis Hydref 2021 (yn aros am 12 wythnos ar gyfartaledd). Ar hyn o bryd, mae cyfranogwyr sgrinio yn aros 8.5 wythnos ar gyfartaledd am eu colonosgopi sgrinio cyntaf (Tachwedd 2022), gydag un bwrdd iechyd at hyn o bryd yn eithriad gydag amser aros 20 wythnos ac mae Sgrinio Coluddion Cymru wrthi'n gweithio gyda nhw i fynd i'r afael â hyn.

### 3.4. Strategaethau i Gynyddu Capasiti Colonosgopi Sgrinio Coluddion

Mae rheolwyr Sgrinio Coluddion Cymru yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd gyda'r timau endosgopi ym mhob bwrdd iechyd i drafod amseroedd amser sgrinio, rhannu data modelu galw am sgrinio ac ymchwilio i opsiynau i gynyddu capasiti colonosgopi sgrinio. Mae'r mentrau canlynol i gynyddu capasiti sgrinio wedi'u gweithredu ar adegau gwahanol ac mewn byrddau iechyd gwahanol ers mis Gorffennaf 2020:

- **Adolygu Canllawiau Gwyliadwriaeth Colonosgopi Cymdeithas Gastroenteroleg Prydain**

Yn 2019, cyhoeddodd Cymdeithas Gastroenteroleg Prydain (BSG), Cymdeithas Coloproctoleg Prydain Fawr ac Iwerddon (ACPGBI) ac Iechyd Cyhoeddus Lloegr (PHE) ganllawiau gwyliadwriaeth consensws ar gyfer rheoli ôl-bolypectomi a chanserau'r colon a'r rhefr. Ym mis Tachwedd 2019, cyhoeddodd y Rhaglen Endosgopi Genedlaethol (NEP) ddogfen yn manylu ar weithredu'r canllawiau hyn. Rhwng mis Ionawr a mis Gorffennaf 2020, adolygodd a chymhwysodd Sgrinio Coluddion Cymru y llwybr gwyliadwriaeth newydd i 3,600 o gyfranogwyr gwyliadwriaeth. Arweiniodd yr adolygiad hwn at nifer o gyfranogwyr yn symud naill ai i gyfnod gwyliadwriaeth colonosgopi 3 blynedd (o wyliadwriaeth colonosgopi blwyddyn) neu eu dileu'n llwyr o'r wyliadwriaeth, gyda chynnydd canlyniadol yn y capasiti sydd ar gael mewn endosgopi.

- **Achredu Colonosgopyddion Sgrinio Ychwanegol**

Oherwydd natur y polypau bach a chynnil a ganfyddir mewn colonosgopi sgrinio, yn ogystal â'r cynnyrch patholeg uchel (h.y. 70% o ran canfod polyp a 10% o ran canfod canser), mae Sgrinio Coluddion Cymru, yn unol â'r rhaglenni sgrinio yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, yn mynnu mai dim ond colonosgopyddion sydd â digon o brofiad a sgiliau i gyrraedd y safon achredu a bennwyd gan y Grŵp Cynghori ar y Cyd ar Endosgopi Gastroberfeddol (JAG) all gynnal gweithdrefnau colonosgopi sgrinio.

Yn 2019, roedd gan Sgrinio Coluddion Cymru 18 o golonosgopyddion achrededig a oedd yn cynnal 21 o weithdrefnau colonosgopi sgrinio yn wythnosol. Yn ystod 2020, cafodd dau unigolyn ychwanegol eu hachredu i gynnal colonosgopïau sgrinio, gyda phump arall wedi'u hachredu hyd yma, a'r diweddaraf yw'r Endosgopydd Nyrs Glinigol cyntaf i gyflawni achrediad sgrinio yng Nghymru (achredwyd ar 26 Tachwedd 2022). Ar hyn o bryd, mae gan Sgrinio Coluddion Cymru 25 o Golonosgopyddion Sgrinio ar draws y saith bwrdd iechyd, gyda disgwyl i ddau unigolyn arall gael asesiad ffurfiol ar ddechrau 2023.

I gynorthwyo'r broses hon, mae Sgrinio Coluddion Cymru yn gweithio ar y cyd â'r JAG i weinyddu'r broses achredu sgrinwyr, gyda'r JAG yn ardystio sgrinwyr. Yn ogystal, mae Sgrinio Coluddion Cymru yn cynnig amrywiaeth o gymorth i bob darpar ymgeisydd er mwyn iddynt gael y cyfle gorau i gyflawni achrediad, gan gynnwys adolygu dangosyddion perfformiad allweddol cyn gwneud cais i fod yn Golonosgopyddion Sgrinio, mentoriaeth leol gydag aseswyr yn eu canolfan sgrinio a sesiynau mentoriaeth pwrpasol, un i un, ar benwythnos yn union cyn yr asesiad ffurfiol.

Er mwyn annog recriwtio Colonosgopyddion Sgrinio yn y dyfodol, rhoddodd cynrychiolwyr o'r rhaglen sgrinio coluddion a chydweithwyr o'r NEP a'r rhaglen sgrinio yn Lloegr gyflwyniad yng nghynhadledd ddiweddar Cymdeithas Gastroenteroleg ac Endosgopi Cymru (WAGE) i esbonio'r broses achredu, rhoi manylion am y cymorth a roddir gan Sgrinio Coluddion Cymru i ymgeiswyr a chodi ymwybyddiaeth o rôl yr Endosgopyddion Nyrsio Clinigol mewn sgrinio.

### ❖ Newidiadau i Gynlluniau Swydd Colonosgopydd Sgrinio

Yn ogystal â recriwtio Colonosgopyddion Sgrinio ychwanegol, mae angen i rai Colonosgopyddion Sgrinio presennol addasu eu cynlluniau gwaith i'w galluogi i gynnal y gweithdrefnau colonosgopi sgrinio y mae eu bwrdd iechyd wedi'i gomisiynu i'w darparu. Mae'r dull hwn yn cael ei annog gan Sgrinio Coluddion Cymru yn ystod y trafodaethau gyda thimau endosgopi'r bwrdd iechyd ac mae'r dull hwn wedi profi'n llwyddiannus o ran galluogi capasiti sgrinio lleol ychwanegol, gyda chlinigwyr yn ôl-lenwi rolau meddygol mwy cyffredinol y Colonosgopyddion achrededig. Fodd bynnag, mae llawer o fyrddau iechyd yn nodi bod y broses hon yn anodd i'w gweithredu yn sgil diffyg clinigwyr i ymgymryd â'r rolau sy'n cael eu cynnal gan y Colonosgopyddion Sgrinio ar hyn o bryd.

### ❖ Defnyddio Colonosgopyddion Sgrinio wedi'u Mewnoli

Ar ddechrau 2021, cytunodd Bwrdd Rhaglen Sgrinio Coluddion Cymru i dderbyn y defnydd o Golonosgopyddion Sgrinio wedi'u mewnoli yn y rhaglen sgrinio coluddion yng Nghymru. Rhaid i bob unigolyn o'r fath fod wedi'i achredu gan JAG fel Colonosgopyddion Sgrinio a bodloni amrywiaeth o ddangosyddion perfformiad allweddol llym cyn cael eu cymeradwyo i gynnal gweithdrefnau colonosgopi Sgrinio Coluddion Cymru (gan gynnwys adolygiad o'r data sgrinio o'u rhaglen genedlaethol gynhaliol). Hyd yma, mae mewnoli colonosgopi sgrinio wedi'i gynnal mewn pedwar o'r saith bwrdd iechyd i gynorthwyo â'r gostyngiad mewn ôl-groniadau sgrinio ac ôl-lenwi rhestrau a gollwyd a achoswyd gan absenoldebau staff.

### ❖ Darparu Rhestrau Sgrinio Ychwanegol

Mae pob un o'r saith bwrdd iechyd wedi darparu rhestrau colonosgopi sgrinio ychwanegol ar sail ad hoc er mwyn ateb y galw cynyddol, boed yn rhestrau ychwanegol ar benwythnosau gan ddefnyddio mentrau rhestrau aros neu restrau ychwanegol yn ystod diwrnodau'r wythnos. Mae darparu rhestrau sgrinio ychwanegol yn dibynnu ar argaeledd nyrsio (SSP a nyrsys endosgopi),

Colonosgopyddion ac ystafelloedd endosgopi, yn ogystal â galwadau sy'n cystadlu â'i gilydd o ran y gwasanaeth colonosgopi symptomatig.

# 4 Y sefyllfa bresennol ar gyfer optimeiddio'r rhaglen sgrinio canser y coluddyn (h.y. ar gyfer cynyddu sensitifrwydd profion imiwnocemegol ar ysgarthion (FIT) a'r ystod oedran) a sut y mae hyn yn cymharu â rhannau eraill o'r DU

## 4.1 Argymhelliad Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU (UK NSC) (Awst 2018)

Mewn ymateb i argymhelliad UK NSC ym mis Awst 2018, y dylid optimeiddio pob rhaglen sgrinio coluddion drwy gynnig sgrinio seiliedig ar FIT i'r rhai rhwng 50-74 oed ar drothwy mor isel â phosibl, datblygodd Sgrinio Coluddion Cymru gynllun â sawl cam er mwyn optimeiddio'r rhaglen sgrinio coluddion yng Nghymru fel yr amlinellir isod.

## 4.2 Cyflwyno FIT fel y Prawf Sgrinio Sylfaenol

Dechreuodd Sgrinio Coluddion Cymru y gwaith o gyflwyno FIT fel y cynlluniwyd ym mis Ionawr 2019, gyda'r cyflwyno cychwynnol o gyfranogwyr sgrinio 1:28 wedi cael y pecyn FIT ar hap yn lle'r prawf gwaed cudd yn yr ysgarthion guaiac sy'n seiliedig ar gerdyn. Cafodd y prawf sgrinio newydd hwn ei gyflwyno'n raddol yn ystod 2019, gyda'r holl gyfranogwyr sgrinio yng Nghymru yn cael y pecyn FIT o fis Medi 2019. Roedd y pecyn FIT yn cynnig manteision mwy o benodolrwydd, dadansoddi awtomataidd yn y labordy a chasglu samplau unigol, haws, ac roedd yr olaf wedi helpu i gynyddu cyfraddau cyfranogi ar gyfer sgrinio coluddion 10% o gymharu â'r prawf blaenorol.

Er mwyn bodloni'r capasiti colonosgopi a oedd ar gael yn 2019, cafodd y trothwy positif (torbwynt) ar gyfer sgrinio FIT ei osod ar 150 microgram (μg) o haemoglobin/gram (g) o ysgarthion. Mae hyn yn parhau i fod yn drothwy ar gyfer sgrinio FIT positif yng Nghymru ar hyn o bryd.

## 4.3 Ehangu Oedran a Newidiadau i'r Trothwy Positifrwydd Sgrinio FIT

Mewn cydweithrediad â chynghorwyr arbenigol, datblygodd Sgrinio Coluddion Cymru gynllun dwy flynedd i ddechrau i gynyddu'r oedran sgrinio cymwys o 60-74 i 55-74 o 2020, wedyn ehangu hyn ymhellach i 50-74 oed o 2021. Roedd disgwyl i'r broses hon ddechrau ym mis Ebrill 2020 ond ni chafodd ei dechrau oherwydd pandemig COVID-19 a'r oedi dilynol o ran y rhaglen sgrinio.

Yn ystod 2021, aeth Sgrinio Coluddion Cymru ati i ailgynnull ei Fwrdd Cynghori Optimeiddio er mwyn ailwerthuso cynllun y rhaglen ar gyfer optimeiddio a chytunwyd, yn sgil effaith y pandemig ar y ddarpariaeth gwasanaeth endosgopi a oedd ar gael ac amseroedd aros, y byddai dull mwy realistig yn cael ei fabwysiadu oherwydd effaith y pandemig ar wasanaethau iechyd.

Yn hytrach nag ehangu'r oedran sgrinio cymwys dros ddwy flynedd, cytunwyd y byddai hyn yn cael ei ymestyn dros gyfnod o bedair blynedd, gyda newid cydamserol i'r trothwy sgrinio FIT yn ystod y ddwy flynedd olaf fel a ganlyn:

- fis Hydref 2021 – ehangu'r oedran sgrinio cymwys i gynnwys y rhai 58-74 oed (torbwynt FIT ar 150)
- O fis Hydref 2022 – Ehangu'r ystod oedran ymhellach i'r rhai 55 oed (55-74), gyda'r torbwynt FIT yn parhau ar 150
- O fis Hydref 2023 – Ehangu'r oedran sgrinio cymwys i 51-74 oed a gostwng y trothwy FIT (cynyddu sensitifrwydd y pecyn) o 150 i 120 µg/g
- O fis Hydref 2024 – cwblhau'r broses o ehangu oedran, drwy wahodd pawb o 50 oed, wrth gwblhau'r optimeiddio drwy leihau'r trothwy sgrinio FIT i 80µg/g.

Mae Sgrinio Coluddion Cymru wedi cwblhau'r ehangu oedran i'r rhai 58 oed yn unol â'r amserlen rhwng mis Hydref 2021 a mis Medi 2022, a dechrau cam nesaf y cynllun optimeiddio yn unol â'r targed, pan ddechreuodd y rhai o 55 oed gael eu pecynnau sgrinio o 5 Hydref 2022 (roedd disgwyl i'r cyflwyno i bawb rhwng 55-57 oed gael ei gwblhau erbyn mis Medi 2023).

Bydd yr ehangu hwn i 55 oed yn ychwanegu 172,000 o wahoddiadau sgrinio ychwanegol y flwyddyn (amcangyfrifir 492,000 o wahoddiadau'r flwyddyn), gan ehangu'r oedran yn y dyfodol fel y cynlluniwyd, gan arwain at amcangyfrif y bydd 537,000 o unigolion y flwyddyn yn cael pecyn sgrinio'r coluddyn o fis Hydref 2024.

Mae Sgrinio Coluddion Cymru wedi rhannu modelu galw manwl â phob bwrdd iechyd a'r NEP yn seiliedig ar y symiau hyn o wahoddiadau. Mae hyn yn awgrymu y bydd nifer y gweithdrefnau colonosgopi sgrinio yn codi o 4,600 i 6,900 eleni ac yn lefelu ar dros 12,000 o weithdrefnau ar ôl cwblhau'r optimeiddio sgrinio ym mis Medi 2025.

Mae'r cynnydd canlyniadol disgwyliedig mewn canserau a ganfyddir drwy sgrinio yn codi o 330 pan oedd y rhai o 58 oed yn cael eu sgrinio, i dros 500 yn ystod y ddwy flynedd nesaf a thros 870 gyda chwblhau'r ehangu oedran sgrinio a gynlluniwyd a'r newid sensitifrwydd FIT. Cyn optimeiddio'r rhaglen sgrinio coluddion yn 2019, cafodd tua 10% o holl ganserau'r colon a'r rhefr newydd yng Nghymru eu canfod drwy sgrinio. Mae modelu Sgrinio Coluddion Cymru yn nodi bod disgwyl i'r gyfran hon a ganfyddir drwy sgrinio gynyddu i bron 45% y flwyddyn ar ôl cwblhau'r broses optimeiddio yn 2025.

### 4.4 Cymharu â Rhaglenni Sgrinio Coluddion Cenedlaethol eraill y DU

Fel y nodwyd uchod, mae Sgrinio Coluddion Cymru yn bwriadu cwblhau'r broses i fodloni argymhelliad UKNSC i optimeiddio'r rhaglen sgrinio coluddion yng Nghymru erbyn mis Medi 2025, pan fydd pob unigolyn sydd wedi cofrestru gyda meddyg teulu yng Nghymru rhwng 50 a 74 oed yn cael ei wahodd i gael ei sgrinio bob dwy flynedd gan ddefnyddio FIT ar drothwy positif o 80µg/g.

Mae rhaglen sgrinio coluddion yr Alban eisoes yn cynnig sgrinio i bobl 50 i 74 oed ar gyfer sgrinio bob dwy flynedd gan ddefnyddio trothwy FIT o 80μg/g. Yn wahanol i raglenni sgrinio coluddion eraill yn y DU, mae rhaglen yr Alban dim ond yn gyfrifol hyd at gyflawni'r canlyniadau sgrinio FIT. Y byrddau iechyd lleol sy'n gyfrifol am yr holl weithdrefnau colonosgopi sgrinio neu CTC ac nid yw'n ofynnol i'r Colonosgopydd fod yn achrededig. Mae hwn yn fodel gwahanol i raglenni sgrinio eraill y DU sy'n comisiynu gwasanaethau sgrinio coluddion diagnostig a dim ond yn caniatáu Colonosgopyddion sgrinio achrededig i gynnal gweithdrefnau sgrinio.

Mae Rhaglen Sgrinio Canser y Coluddyn (BCSP) Lloegr wedi dechrau ei phroses optimeiddio ac wedi gwahodd y rhai dros 56 oed (y boblogaeth gymwys flaenorol ar gyfer coluddion) ers 2021 ac yn ddiweddar mae wedi dechrau gwahodd y rhai o 58 oed yn 2022, gan ddefnyddio trothwy positif FIT o 120μg/g. Mae gan y rhaglen yn Lloegr gynllun ac amserlen debyg i Gymru o ran cwblhau'r gwaith o optimeiddio'r rhaglen.

Mae Gogledd Iwerddon yn defnyddio sgrinio FIT ar dorbwynt positif o 150μg/g, ond nid yw wedi dechrau ehangu'r oedran ac, yn hynny o beth, mae'n gwahodd y rhai rhwng 60-74 oed i gael eu sgrinio bob dwy flynedd ar hyn o bryd.

## 5 Mynediad gofal sylfaenol ar draws byrddau iechyd gwahanol i FIT ar gyfer cleifion nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer atgyfeirio i lwybr canser a amheuir a sut y mae'n cael ei ddefnyddio i helpu gwasanaethau i flaenoriaethu cleifion a haenu atgyfeiriadau yn ôl risg (trawsnewid cleifion allanol)

Cyn cyhoeddi dogfen Fframwaith y Rhaglen Endosgopi Genedlaethol roedd diddordeb cynyddol yn y defnydd posibl o FIT Symptomatig i flaenoriaethu cleifion a haenu risg. Amlygodd dogfennau cychwynnol NICE (NG12 a DG30) botensial FIT i reoli risg, ac ystyriwyd bod canllawiau Cymru gyfan gan y Rhaglen Endosgopi Genedlaethol yn allweddol i weithredu hyn ar sail effeithiol a theg i Gymru gyfan.

Gan weithio'n agos gyda'r Rhaglen Endosgopi Genedlaethol a byrddau iechyd â diddordeb ledled Cymru, nododd Labordy Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru ei allu i gefnogi'r Fframwaith. Roedd y prawf FIT a dadansoddwyr eisoes yn cael eu defnyddio yn y labordy i ddarparu profion ar ran Sgrinio Coluddion Cymru. Gan ddechrau yng nghanol 2020, ac fel rhan o ymrwymiad Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddarparu cymorth ar y cyd ar draws GIG Cymru ar anterth y pandemig, gwnaed cynnig i bob bwrdd iechyd gynnig profion FIT symptomatig ar ei ran i liniaru'r niwed yn sgil effaith y pandemig ar systemau gofal iechyd i asesu risg cleifion symptomatig i flaenoriaethu capasiti colonosgopi.

Gall y prawf FIT symptomatig nodi arwyddion posibl o glefyd y coluddyn drwy ganfod symiau bach o waed yn yr ysgarthion, yn fwy penodol elfen globin mewn haemoglobin dynol. Mae'r labordy'n defnyddio'r trothwy a argymhellir o 10μg/g o ysgarthion y dylid sbarduno ymchwiliadau os bydd uwchben y trothwy hwn. Mae'r canlyniad yn cael ei ddychwelyd i'r clinigydd a wnaeth y cais er mwyn galluogi haenu

risg cleifion a rheoli atgyfeiriadau i golonosgopi yn effeithiol, gyda'r potensial i leihau'r 'Nifer sydd eu hangen i gwmpasu' (NNS) er mwyn canfod un CRC.

Mae'r labordy ar hyn o bryd yn darparu profion FIT Symptomatig i wasanaethau gofal sylfaenol ar draws pump o'r saith bwrdd iechyd yng Nghymru (Aneurin Bevan, Betsi Cadwaladr, Caerdydd a'r Fro, Powys a Bae Abertawe). Mae hyn yn cwmpasu tua 75% o'r boblogaeth. Mae nifer y rhai sy'n cael eu sgrinio wedi codi dros y cyfnod hwn wrth i gwmpas y boblogaeth gynyddu, ac mae'r labordy bellach yn profi tua 5000 o samplau y mis. Mae'r gwasanaeth yn seiliedig ar atgyfeiriadau electronig a wneir gan y clinigydd sy'n gwneud cais, sy'n cael eu derbyn gan y labordy bob dydd. Yna mae pecyn prawf yn cael ei anfon at y claf drwy'r Post Brenhinol, mae'r claf yn cymryd y sampl, ac yn ei dychwelyd i'r labordy yn y post. Mae'r model hwn yn cael ei arwain gan y galw ac mae modd ei ehangu i ddiwallu anghenion gofal sylfaenol. Bwriedir iddo fod yn gwbl hygyrch i glinigwyr heb yr angen iddynt reoli stoc pecyn profi, ac mae'n darparu gwasanaeth hawdd ei gyrchu i'r claf. Mae'r byrddau iechyd sy'n comisiynu yn gyfrifol am wneud gwaith dilynol ar ganlyniad y claf, a'r haenu risg dilynol. Mae'r labordy yn darparu data rhwyd ddiogelwch i gydlynwyr gwasanaethau lleol er mwyn hwyluso hyn.